Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Pen Barras
# Ffordd Glasdir
# Rhuthun
# Sir Ddinbych
# LL15 1QQ

## Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2019

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Pen Barras

Mae Ysgol Gynradd Pen Barras yn Rhuthun, Sir Ddinbych.  Mae'n gwasanaethu tref Rhuthun a'r cyffiniau.  Fe agorwyd yr adeilad presennol ar safle newydd yn Ebrill 2018.  Cymraeg yw prif gyfrwng a bywyd yr ysgol, ac fe gyflwynir Saesneg yng nghyfnod allweddol 2.  Mae 273 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 35 oed meithrin, rhan amser. Fe'u rhennir yn 11 dosbarth.

Mae cyfran gyfartalog y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim dros y tair blynedd ddiwethaf oddeutu 3%.  Mae hyn yn sylweddol is na'r ganran genedlaethol (19%).  Mae tua 76% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref.  Mae'r ysgol wedi adnabod tua 15% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, sydd ychydig yn is na'r ganran genedlaethol.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym mis Medi 2011, ac fe arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mai 2011.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gadarn ac effeithiol iawn i'r ysgol, sy'n sicrhau cyfeiriad strategol clir iddi, a diwylliant sy'n hyrwyddo Cymreictod, meithrin parch ac annog y disgyblion a'r staff i wneud eu gorau. Fe gaiff ei gefnogi'n hynod effeithiol gan yr uwch dîm rheoli. Un o nodweddion rhagorol yr ysgol yw'r modd y mae holl aelodau staff yn cydweithio'n arbennig o dda gyda'i gilydd.

Mae'r ysgol yn gymuned hynod o gyfeillgar a gofalgar. Mae safonau lles ac agwedd tuag at ddysgu bron pob disgybl yn ardderchog. Nodwedd eithriadol o fywyd yr ysgol yw'r cwrteisi a'r parch mae pob disgybl yn eu dangos tuag at eu cyfoedion ac oedolion. Mae awyrgylch dysgu brwdfrydig ym mhob dosbarth. Mae athrawon yn manteisio ar gyfleoedd rheolaidd i herio disgyblion wrth holi'n fedrus a'u hannog i feddwl. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd cadarn a chyson, sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn a ddisgwylir, tra bod dros hanner yn gwneud cynnydd sydd y tu hwnt i hyn.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Rhagorol** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Rhagorol** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Rhagorol** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Rhagorol** |

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod adroddiadau monitro yn arfarnol a'u bod yn nodi'n glir effaith gweithdrefnau ar safonau a lles y ddisgyblion.

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas â sut mae disgyblion ar draws yr ysgol yn arwain y cynllunio a'r effaith mae hyn yn ei chael i ennyn eu diddordeb a datblygu eu medrau a'u chwilfrydedd tuag at ddysgu, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Rhagorol**

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd cadarn a chyson, sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn a ddisgwylir, tra bod dros hanner yn gwneud cynnydd sydd y tu hwnt i hyn. Mae bron pob disgybl sy'n dod o gartrefi lle nad y Gymraeg yw iaith yr aelwyd yn caffael medrau cyfathrebu Cymraeg da iawn yn fuan. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd ardderchog yn erbyn eu targedau.

Mae medrau llafar a gwrando bron pob disgybl yn gadarn iawn. Maent yn gwrando'n astud ar oedolion ac ar ei gilydd, ac yn ymateb yn hynod aeddfed i gyfarwyddiadau a chwestiynau, gan ddefnyddio brawddegau estynedig a diddorol. Maent yn awyddus iawn i gynnig cyfraniadau a sylwadau wrth drafod eu tasgau. Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn siarad yn hyderus iawn, gan ddefnyddio ystod eang o eirfa goeth mewn amrywiol sefyllfaoedd, fel yn eu cynhyrchiad o briodas Lleu a Blodeuwedd, er enghraifft. Mae bron pob disgybl yng nghyfnod allweddol 2 yn cyfathrebu mewn modd hynod aeddfed yn y Gymraeg a Saesneg gan fynegi eu syniadau yn effeithiol iawn mewn ystod eang o ffurfiau.

Mae medrau darllen bron pob disgybl yn datblygu'n llwyddiannus iawn. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn darllen geiriau cyfarwydd ac anghyfarwydd yn rhugl ac yn hyderus iawn. Mae llawer yn dechrau darllen gyda mynegiant ac ystyr priodol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn darllen yn ddeallus ac yn aeddfed yn y ddwy iaith. Gwnânt ddefnydd da iawn o'u medrau i gywain gwybodaeth berthnasol o lyfrau a thestunau amrywiol ac oddi ar wefannau i gyfoethogi eu gwaith ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth baratoi adroddiadau newyddion wythnosol a phortread o Syr O M Edwards.

Un o gryfderau amlwg yr ysgol yw'r ffordd y mae llawer o ddisgyblion yn y cyfnod sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu'n annibynnol i safon uchel at wahanol bwrpasau ac mewn ystod eang o bynciau a chyd-destunau. Erbyn diwedd y cyfnod, sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da iawn yn eu hyfedredd i ddefnyddio geirfa ac iaith amrywiol i ysgrifennu storïau a llythyron i bwrpas. Er enghraifft, maent wedi ysgrifennu llythyr i ddiolch i Brif Weinidog Cymru am eu llefrith dyddiol ac i'w annog i anfon y llefrith mewn poteli fel na fydd rhaid iddynt ddefnyddio gwellt plastig i lygru'r amgylchedd. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu brawddegau cymhleth, yn datblygu eu syniadau'n synhwyrol ac yn dangos gafael gadarn ar ffurf a dilyniant, yn y Gymraeg a'r Saesneg. Maent yn dewis geirfa ddiddorol, ac yn sillafu ac atalnodi'n gywir. Erbyn eu bod yn cyrraedd brig yr ysgol, maent yn defnyddio ansoddeiriau, cymariaethau ac idiomau'n hyderus a naturiol i gyfoethogi eu gwaith, er enghraifft wrth ysgrifennu stori yn arddull Roald Dahl. Mae cyflwyniad a llawysgrifen y rhan fwyaf yn daclus iawn, sy'n dangos balchder y disgyblion yn eu gwaith.

Yn y cyfnod sylfaen, mae medrau rhifedd bron pob disgybl yn gadarn iawn. Erbyn diwedd y cyfnod, mae ganddynt afael sicr iawn ar ffeithiau rhif i 100. Maent yn cyfrifo'n hynod fedrus yn y pen wrth ddatrys problemau heriol, er enghraifft wrth chwilio am yr allwedd gywir i agor cloeon. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn iawn

o unedau mesur wrth amcangyfrif a mesur hyd blodau a brigau. Mae bron pob disgybl yng nghyfnod allweddol 2 yn datblygu ac yn defnyddio ystod eang o fedrau rhif yn feistrolgar, gyda'r disgyblion mwy abl yn cyflawni'n uchel iawn. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn iawn o berthynas rhif a gweithred mewn sefyllfaoedd real, wrth greu fformiwla i gyfrifo sawl postyn llorweddol a fertigol sydd eu hangen i adeiladu ffens, er enghraifft. Maent yn defnyddio medrau mesur yn dda iawn wrth gyfrifo perimedr ac arwynebedd siapiau cyfansawdd a chylch. Maent yn dehongli data yn hynod ddeallus wrth gyfrifo modd, amrediad a chyfartaledd nifer y goliau a sgoriwyd mewn twrnamaint pêl-droed. Mae disgyblion yn y ddau gyfnod yn defnyddio a chymhwyso eu medrau yn effeithiol ar draws y meysydd dysgu.

Mae medrau technoleg, gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) pob disgybl yn datblygu'n gadarn iawn, ac maent yn eu defnyddio'n gwbl naturiol yn eu gwaith trawsgwricwlaidd. Yn y cyfnod sylfaen, maent yn defnyddio llechen electronig yn hyderus wrth ysgrifennu cyfarwyddiadau syml ar sut i olchi dillad yn oes Fictoria. Maent yn rheoli tegan mecanyddol yn llwyddiannus wrth osgoi bwystfilod ar daith ac yn creu graff bloc a siart cylch yn gywir i ddangos sut mae'r disgyblion yn teithio i'r ysgol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn creu ac archwilio data yn effeithiol i greu cyflwyniadau amlgyfrwng, er enghraifft wrth greu animeiddiad o sgript am y fferm a ysgrifennwyd ganddynt. Mae medrau codio y disgyblion hŷn yn datblygu'n dda iawn wrth iddynt greu gemau drysfa i ddisgyblion Blwyddyn 3.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Rhagorol**

Mae safonau lles ac agwedd bron pob disgybl tuag at ddysgu yn ardderchog. Nodwedd eithriadol o fywyd yr ysgol yw'r cwrteisi a'r parch mae pob disgybl yn eu dangos tuag at eu cyfoedion ac oedolion. Mae hyn yn cyfrannu'n sylweddol at yr awyrgylch ddysgu arbennig a hynod effeithiol sy'n bodoli yn yr ysgol. Mae bron pob disgybl yn mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol ac yn teimlo'n ddiogel yno. Maent yn ymwybodol o bwy i droi atynt mewn achosion o bryder, ac yn hyderus iawn bod y staff yn gwrando arnynt. Mae gan y disgyblion i gyd ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd cadw'n ddiogel ar y we. Mae bron pob disgybl yn deall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach, ynghyd â chymryd rhan mewn gweithgareddau i ymarfer y corff yn gyson. Caiff hyn effaith gadarnhaol iawn ar eu medrau personol a chymdeithasol yn ogystal â datblygu eu hyder a'u ffitrwydd yn llwyddiannus.

Mae bron pob disgybl yn weithgar a brwdfrydig, yn cydweithio'n gytûn ac yn cadw'n ddygn ar dasg dros gyfnodau estynedig. Maent yn dangos parch at farn eraill drwy wrando ar eu safbwyntiau ac aros eu tro yn amyneddgar. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith ac maent yn cyfrannu'n gadarnhaol tuag at gefnogi a gwella dysgu ei gilydd. Mae agweddau'r disgyblion at ddysgu a'u gallu i ddefnyddio'u medrau dysgu annibynnol yn nodweddion rhagorol.

Mae bron pob disgybl yn ymfalchïo yn y cyfleoedd rheolaidd a gwerthfawr a gânt i berfformio o flaen cynulleidfaoedd. Mae'r rhain yn cynnwys cyngherddau ysgol, gwasanaethau amrywiol, ac Eisteddfodau'r yr Urdd.

Mae ymddygiad bron pob disgybl yn y dosbarthiadau ac wrth iddynt symud o gwmpas yr ysgol yn ardderchog. Mae'r disgyblion hŷn yn dangos gofal mawr am y disgyblion iau, sy'n sicrhau eu bod yn tyfu'n ddisgyblion hyderus a hapus. Mae hyn yn cyfrannu at natur gynhwysol ac ethos hynod ofalgar yr ysgol. Mae bron pob un yn dangos balchder wrth siarad am eu hysgol a'r gymuned ehangach ac maent yn barod iawn i gefnogi'r gymuned leol trwy berfformio a chymryd rhan mewn amrywiaeth o achlysuron arbennig. Mae disgyblion Blwyddyn 1 a 2, er enghraifft, yn ymweld â thrigolion cartref yr henoed yn rheolaidd i'w diddanu.

Mae llais y disgybl yn gryf iawn ar draws yr ysgol wrth iddynt fanteisio'n llawn ar gyfleoedd eang i leisio'u barn ac i ddylanwadu ar fywyd a gwaith yr ysgol. Enghraifft nodedig o hyn yw'r ffordd naturiol y mae disgyblion ar draws y ddau gyfnod yn arwain eu dysgu eu hunain i gyd-fynd â'u diddordebau. Y disgyblion sy'n penderfynu pa themâu yr hoffent eu dysgu, ynghyd â'r prif drwyddau ymholi yr hoffent ganolbwyntio arnynt. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn cymryd perchnogaeth lawn am eu dysgu.

Mae aelodau'r pwyllgorau niferus fel y cyngor ysgol, y cyngor eco, arweinwyr digidol a'r llys genhadon chwaraeon yn dylanwadu'n ardderchog ar fywyd a gwaith yr ysgol. Er enghraifft, mae aelodau'r cyngor wedi cydweithio'n llwyddiannus gyda chyngor ysgol arall sy'n rhannu'r un safle i gyd-gynhyrchu amserlenni ar gyfer y cyfleusterau a rennir.

Mae cyfraddau presenoldeb disgyblion yn gyson uchel iawn. Maent wedi bod yn uwch na'r cymedr o gymharu ag ysgolion tebyg dros y pum mlynedd ddiwethaf ac yn y chwarter uchaf am y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod disgyblion yn mwynhau mynychu'r ysgol.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Rhagorol**

Mae'r addysgu yn effeithiol iawn ym mhob dosbarth. Mae'r drefn gytûn o gynllunio gweithgareddau dysgu sy'n mynd i'r afael ag anghenion disgyblion o bob gallu yn effeithiol iawn. Nodwedd arbennig o'r cynllunio yw'r ffordd mae disgyblion ym mhob adran yn dewis y themâu yr hoffent eu dysgu, gyda'r athrawon yn adeiladu ar eu syniadau yn grefftus iawn. Mae hyn yn ennyn diddordeb y disgyblion yn ardderchog ac yn datblygu eu medrau a'u chwilfrydedd tuag at ddysgu yn grefftus, gan gryfhau eu hymrwymiad i'w gwaith yn hynod lwyddiannus.

Mae cyflymder gwersi yn nodwedd gref ac mae athrawon yn defnyddio ystod goeth o ddulliau addysgu cyffrous i ddatblygu medrau'r disgyblion yn hynod effeithiol. Mae awyrgylch dysgu brwdfrydig ym mhob dosbarth gyda'r athrawon yn manteisio ar bob cyfle i herio disgyblion wrth eu holi'n fedrus a'u hannog i feddwl. Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn gweithio'n hynod effeithiol fel tîm. Maent yn modelu iaith safonol yn grefftus, ac yn manteisio ar gyfleoedd gwerthfawr i wella medrau llafar y disgyblion. Trwy feithrin perthynas waith effeithiol iawn gyda'r disgyblion, mae staff yn creu amgylchedd dysgu hynod gefnogol ac ysgogol, sy'n eu hannog i ddysgu'n barhaus.

Mae gan yr ysgol ethos Cymreig naturiol, ac mae'r holl staff yn creu naws hynod gadarnhaol sy'n hyrwyddo hyn yn llwyddiannus ac yn ennyn brwdfrydedd y disgyblion tuag at yr iaith. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y dimensiwn Cymreig yn

gyffrous ac yn llawn dychymyg. Atgyfnerthir hyn yn effeithiol drwy ddarparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddysgu am gelf, barddoniaeth a llenyddiaeth Gymraeg, ac wrth iddynt gystadlu mewn eisteddfodau, a mynychu canolfannau Cymraeg fel gwersylloedd yr Urdd yn Llangrannog, Glan-Llyn a Chaerdydd. Mae hyn yn codi ymwybyddiaeth disgyblion o'u hardal leol ac yn cynyddu eu diddordeb mewn traddodiadau, diwylliant a hanes yr ardal leol a Chymru gyfan, yn llwyddiannus.

Mae'r athrawon yn darparu cyfleoedd cyfoethog ac amrywiol i'r disgyblion berfformio yn yr ysgol ac yn y gymuned leol. Mae'r cyfleoedd hyn yn datblygu medrau creadigol y disgyblion yn dda iawn. Maent yn cynnwys gweithgareddau chwaraeon a cherddorol, sydd wedi arwain at lwyddiant ardderchog y disgyblion mewn eisteddfodau a chystadlaethau eraill.

Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi eu sefydlu'n gadarn. Mae mynediad di-dor i'r ardal allanol yn sicrhau bod pob disgybl yn elwa o weithgareddau ysgogol y tu mewn a thu allan. Fe ddarperir gweithgareddau ffocws a pharhaus effeithiol sy'n cynnwys cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ymchwilio, chwarae rôl, adeiladu ac ymarfer eu medrau corfforol. Mae hyn yn meithrin agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu ac yn annog y disgyblion i ddyfalbarhau am gyfnodau estynedig. Mae athrawon cyfnod allweddol 2 yn adeiladu'n dda ar y sylfaen gadarn hon drwy annog y disgyblion i gymhwyso'u medrau mewn tasgau heriol. Darperir cyfleoedd gwerthfawr a synhwyrol i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh disgyblion ar draws y cwricwlwm.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu wedi eu sefydlu'n gadarn drwy'r ysgol. Rhoddir adborth adeiladol ar lafar ac yn ysgrifenedig i ddisgyblion er mwyn iddynt ddeall yr hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella safon eu gwaith. Darperir cyfleoedd cynyddol i ddisgyblion fyfyrio ar eu dysgu eu hunain ac ar ymdrechion eu cyfoedion, ac i gyfrannu'n effeithiol at y broses o osod lefelau her eu hunain. Mae'r elfen hon o waith yr ysgol yn gryfder ac yn cyfrannu'n llwyddiannus at gynnydd a chyflawniad y disgyblion.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol

Mae'r ysgol yn gymuned hynod gyfeillgar a gofalgar. Mae gofal, cymorth ac arweiniad y staff i sicrhau lles y disgyblion yn eithriadol o effeithiol, ac yn sicrhau eu bod yn cael cyfleoedd rhagorol i ffynnu yn eu datblygiad academaidd, cymdeithasol, moesol, emosiynol a chreadigol. Mae gan bob aelod staff ddisgwyliadau uchel iawn o ran ymddygiad, ymdrech a lles disgyblion. Adlewyrchir hyn yn glir iawn yn y ffordd aeddfed a brwdfrydig mae disgyblion yn ymateb i bob agwedd o fywyd a gwaith yr ysgol.

Mae'r sesiynau cydaddoli yn gyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu medrau ysbrydol y disgyblion, ynghyd â'u dealltwriaeth o'r byd ehangach a'u hagweddau parchus tuag at bobl o wahanol ddiwylliannau a chefndiroedd. Mae gan yr ysgol weithdrefnau cadarn i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. O ganlyniad, mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i gadw'n iach a heini. Mae'r sesiynau ymarfer corff a'r clybiau chwaraeon yn cyfrannu'n llwyddiannus at hyn. Mae gweithgareddau amrywiol i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o les personol yn sicrhau bod bron pob un yn deall pwysigrwydd cadw'u hunain yn ddiogel yn yr ysgol, gartref, ar y ffordd ac ar-lein. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodoli gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r staff yn darparu cyfleoedd eang iawn i ddisgyblion leisio'u barn a dylanwadu ar fywyd a gwaith yr ysgol. O ganlyniad, mae aelodau'r holl gynghorau yn frwdfrydig iawn, ac yn deall eu bod yn cynrychioli safbwynt disgyblion eraill o fewn y gymuned ysgol. Mae'r staff yn annog y disgyblion i gydweithio'n agos iawn â nhw i sicrhau bod yr ysgol yn lle diogel, iach a hapus. Maent yn annog y Criw Clên, er enghraifft, i sicrhau bod disgyblion yn hapus yn chwarae ar y buarth. Nodwedd arbennig o waith yr ysgol yw cyfraniad pob disgybl wrth benderfynu ar y themâu yr hoffent eu hastudio a'r trywyddau dysgu yr hoffent eu dilyn. Mae hyn yn cyfrannu'n ardderchog at frwdfrydedd y disgyblion i weithio'n hyderus ac annibynnol. Mae hyn yn cael effaith gref ar y safonau uchel y maent yn eu cyflawni.

Mae'r staff yn hyrwyddo diwylliant, iaith a threftadaeth Cymru yn arbennig o effeithiol. Maent yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu profiadau dychmygus disgyblion drwy gynnig gwersi celf a cherdd diddorol iddynt a thrwy wahodd beirdd, actorion ac artistiaid o Gymru i hybu eu dealltwriaeth o gelfyddyd Gymreig gyfoes. Mae'r staff yn darparu cyfleoedd niferus i ddisgyblion berfformio yn yr ysgol, yn y gymuned leol, i gymryd rhan mewn cyngherddau ac i gystadlu mewn eisteddfodau a chystadlaethau cenedlaethol eraill. Mae hyn yn datblygu eu hunanhyder, a'u balchder yn eu hunain a'u hysgol yn llwyddiannus iawn.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau hynod effeithiol a thrwyadl i olrhain a monitro cynnydd a lles disgyblion. Mae hyn yn galluogi staff i adnabod unrhyw ddisgyblion sydd angen cymorth neu her ychwanegol yn gyflym. Maent yn trefnu ystod eang o raglenni ymyrraeth amrywiol a chyfoethog iddynt, sy'n ennyn eu diddordeb ac sy'n anelu at fodloni anghenion pob un ohonynt. Mae hyn yn sicrhau cefnogaeth ofalgar i unigolion a grwpiau o ddisgyblion ac yn eu galluogi i wneud cynnydd cadarn a chyson i gyrraedd safonau da. Mae cynlluniau addysg unigol y disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gryno a chlir. Caiff y cynlluniau eu hadolygu'n gyson ar y cyd â'r disgyblion a'u rhieni, a'u haddasu'n bwrpasol lle bo angen.

Mae perthynas ardderchog yn bodoli rhwng y rhieni a'r ysgol. Mae rhieni wedi codi symiau sylweddol o arian i brynu cyfarpar i wella cyfleoedd i'r disgyblion yn yr ardaloedd dysgu a chwarae allanol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar ddatblygiad cymdeithasol a lles disgyblion. Maent hefyd wedi prynu cyfarpar TGCh sydd wedi codi safonau yn sylweddol yn y maes dysgu hwn.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Rhagorol**

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gadarn ac effeithiol iawn i'r ysgol, sy'n sicrhau cyfeiriad strategol clir iddi, a diwylliant sy'n hyrwyddo Cymreictod, meithrin parch ac annog y disgyblion a'r staff i wneud eu gorau. Mae ganddo weledigaeth sy'n seiliedig ar ddarparu addysg o'r ansawdd uchel i sicrhau bod pob disgybl yn cyrraedd hyd eithaf ei allu. Fe gaiff ei gefnogi'n hynod effeithiol gan yr uwch dîm rheoli. Un o nodweddion rhagorol yr ysgol yw'r modd y mae'r holl aelodau staff yn cydweithio'n arbennig o dda gyda'i gilydd. Mae cyfarfodydd rheolaidd yr adrannau yn cyfrannu'n ardderchog i lwyddiant yr ysgol ac yn sicrhau bod pob agwedd ar waith yr ysgol yn cael dylanwad cadarnhaol a chlir ar gyflawniad a lles disgyblion ac yn sicrhau ethos cartrefol a chymuned drefnus.

Caiff yr ysgol gefnogaeth dda iawn gan y llywodraethwyr. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol ac o'r meysydd sydd angen eu datblygu

ymhellach. Mae trefn drylwyr yr ysgol o fonitro yn sicrhau eu bod yn wybodus am ei pherfformiad. Mae eu harfer o ymweld â dosbarthiadau yn eu cynorthwyo i ddod i farn glir ynghylch safonau gwaith a chyrhaeddiad disgyblion ac yn eu galluogi i herio a chwestiynu staff am berfformiad yr ysgol.

Mae cynlluniau'r ysgol ar gyfer datblygu staff yn cysylltu'n uniongyrchol â'r gweithdrefnau rheoli perfformiad cyfredol. Maent yn cyfoethogi datblygiad proffesiynol yr holl staff yn llwyddiannus iawn. Mae'r ysgol wedi meithrin perthynas waith effeithiol gydag ysgolion eraill tebyg ac wedi elwa'n fawr mewn meysydd fel datblygu yr ardal allanol yn y cyfnod sylfaen a TGCh. Mae hyn wedi arwain at ddatblygu'r ardaloedd dysgu amrywiol yn wych er mwyn ysgogi disgyblion i fod yn ddysgwyr mwy annibynnol, ac i wella medrau TGCh y disgyblion yn sylweddol ar draws yr ysgol.

Mae gan holl aelodau'r staff ddealltwriaeth gadarn o gryfderau a meysydd sydd angen eu gwella. Maent yn defnyddio'r wybodaeth o brosesau gwerthuso trylwyr fel craffu ar lyfrau, arsylwi gwersi a dadansoddi data, er mwyn adnabod blaenoriaethau gwella i'w cynnwys yn y cynllun datblygu ysgol. Mae'r ysgol yn casglu barn rhieni a disgyblion yn rheolaidd i sicrhau bod gan yr holl randdeiliaid gyfle amlwg i wneud sylwadau a chynnig awgrymiadau o ran gwella'r ddarpariaeth a chodi safonau. Mae cysylltiad da rhwng canfyddiadau'r gweithdrefnau gwerthuso a chynllun datblygu'r ysgol, sy'n sicrhau ei fod yn offeryn defnyddiol ac effeithiol. Mae'r staff yn monitro cynnydd yn ofalus ac yn cyflwyno adolygiadau trylwyr mewn perthynas â blaenoriaethau'r ysgol; mae hyn yn sicrhau bod yr ysgol yn parhau i roi sylw teilwng i wella safonau a lles y disgyblion. Er bod gweithdrefnau gwerthuso yn gynhwysfawr, nid yw'r adroddiadau monitro bob amser yn rhoi digon o sylw i gyflawniad y disgyblion; mae tueddiad iddynt fod yn ddisgrifiadol ac nid yn arfarnol.

Mae gwariant yn cysylltu'n dda ag amcanion, targedau a chynlluniau gwella'r ysgol. Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn monitro ac yn rheoli gwariant yn ofalus iawn ac yn sicrhau bod yr adnoddau ariannol yn cael eu defnyddio'n llawn i gefnogi blaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae'r defnydd effeithiol o'r grant datblygu disgyblion i gynnal yr ychydig iawn o ddisgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim wedi arwain at gynnydd sylweddol yn safonau disgyblion, yn arbennig wrth wella eu medrau darllen.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 31/05/2019